Uffizi

Oriel gelf yn Fflorens ac o un amgueddfeydd hynaf Ewrop yw **Oriel yr Uffizi** (Eidaleg: *Galleria degli Uffizi*). Fe'i agorwyd i'r cyhoedd yn ei ffurf bresennol ym 1765. Ar gasgliad preifat teulu'r Medici, teyrnaswyr Fflorens hyd y 18g, y mae ei chasgliad wedi'i seilio. Lleolir yr oriel mewn adeilad a'i cynlluniwyd fel swyddfeydd (*uffici*) ar gyfer gwladwriaeth Toscana gan y pensaer Giorgio Vasari, sydd yn bennaf yn enwog fel bywgraffydd cynnar i arlunwyr y Dadeni.[1]

Loggia dei Uffizi, yn wynebu Afon Arno

Genedigaeth Gwener gan Sandro Botticelli

Rhai o uchafbwyntiau'r casgliad

- Cimabue, *Maestà*
- Duccio, *Madonna Rucellai*
- Giotto, *Madonna Ognissanti*
- Paolo Uccello, *Brwydr San Romano*
- Sandro Botticelli, *Primavera*, *Genedigaeth Gwener*
- Leonardo da Vinci, *Bedydd Crist* (gyda gweithdy Andrea del Verrocchio), *Cyfarch Mair*, *Addoliad y Doethion*
- Michelangelo, *Tondo Doni*
- Raffael, *Madonna del Cardellino*
- Titian, *Gwener Urbino*
- Caravaggio, *Aberth Isaac*, *Medusa*

Cyfeiriadau

1. Fossi, Gloria (2000). *The Uffizi*. Fflorens: Giunti. t. 7.

Wedi dod o "https://cy.wikipedia.org/w/index.php?title=Uffizi&oldid=5184942"

Newidiwyd y dudalen hon ddiwethaf ar 29 Ebrill 2018, am 09:25.

Mae testun y dudalen ar gael dan drwydded Creative Commons Attribution-ShareAlike; gall fod telerau ychwanegol perthnasol. Gweler Telerau Defnyddio'r Drwydded am fanylion pellach.